

Cyngor Proffesiynol

Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl (*Disability Equality Duty*)

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl

(Disability Equality Duty)

Mae'r **Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl** (*Disability Equality Duty, DED*) yn gyfrifoldeb newydd ar bob Awdurdod Cyhoeddus (gan gynnwys ysgolion) i hyrwyddo materion yn ymwneud ag anabledd.

Rhaid:

- hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sydd ag anabledd a phobl eraill
- dileu gwahaniaethu sydd yn erbyn y gyfraith
- dileu aflonyddu (*harassment*) ar sail anabledd
- hyrwyddo agweddau positif tuag at bobl ag anableddau
- annog pobl ag anableddau i gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus
- cymryd camau positif i roi ystyriaeth i anableddau pobl, hyd yn oed os golyga hyn eu bod yn derbyn triniaeth fwy ffafriol

Mae'r **Ddyletswydd** yn creu **naws positif am anabledd**:

"These positive duties apply across the public sector and are a recognition that proactive methods of removing group disadvantage and institutional discrimination are more effective than merely reacting to individual problems when they arise." (**Colm O'Cinneide**, 2004, "Taking Equal Opportunities Seriously", Equality and Diversity Forum www.edf.org.uk/publications.php.)¹

Nid pwrpas y Ddyletswydd yw pwysleisio newidiadau i adeiladau neu addasiadau ar gyfer unigolion. Nid mater o wneud ychydig o newidiadau, llunio rhestr o beth sydd ar gael i hwyluso pethau i bobl anabl, a dweud "dyna ddiwedd arni," ydi hyn.

Yn hytrach mae'n gosod y pwyslais:

- ar agwedd yr holl sefydliad tuag at bobl anabl ac ar greu diwylliant sydd yn cynnwys pobl anabl - yn llwyr
- ar sicrhau fod cynnwys Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn cael lle blaenllaw mewn datblygiad polisi

¹ Comisiwn Hawliau Anabledd): ***Schools and the Disability Equality Duty in England and Wales: Guidance for Governors, Headteachers, teaching and support staff working in schools in England and Wales.***

- ar ddyletswydd pob Corff Cyhoeddus i greu diwylliant sydd yn hyrwyddo ac yn darparu cyfleoedd cyfartal, ac yn dileu disgrimineiddio yn erbyn pobl anabl
- ar y gymdeithas, ac nid y person h.y. nid gan y person anabl mae'r broblem ond ar gymdeithas mae'r bai am ddiffyg darpariaeth, cyfleoedd, ac ati.

Mae gan ysgolion gyfrifoldebau'n barod o dan y Ddeddf Disgrimineiddio ar Sail Anabledd (DDA):

- Rhan 2 – fel cyflogwr (gyda chyfrifoldeb i gefnogi gweithwyr anabl)
- Rhan 3 – fel darparwr gwasanaeth (sydd fwyfwy yn cynnig gwasanaeth ar gyfer y gymuned ehangach)
- Rhan 4 – fel darparwr addysg (gyda chyfrifoldeb i sicrhau cyfleoedd cyfartal i ddisgyblion anabl)

Os ydych eisoes yn cwrdd â'r gofynion yn ôl y Ddeddf, ni ddylai fod yn anodd cymryd cam pellach tuag at ddull mwy cynhwysfawr, holistig a rhagweithiol (*proactive*) o hyrwyddo cydraddoldeb anabledd. Bydd eich gwaith ar gyfer Cynllun Hygyrchedd yr ysgol yn ddefnyddiol i chi wrth i chi fynd ati i ymateb i ofynion y Ddyletswydd.

Mae cyfathrebu a chymysgu yn rhan annatod o fywyd ysgol, rhwng: disgyblion a'i gilydd; disgyblion ac athrawon; athrawon a rhieni a'r gymuned ehangach; y cyflogwr a'r cyflogedig. Mae gan ysgolion, felly, rôl hanfodol a chyfleoedd gwyb ac unigryw i fynd i'r afael â disgrimineiddio yn y gymdeithas ac mae'n hanfodol bwysig bod ysgolion yn gwneud hyn.

- Mae 21% o bobl anabl 16-24 oed heb gymhwyster o'u cymharu â 9% o bobl 16-24 oed sydd heb anabledd (12% o gap) ¹
- Mae pobl ifanc anabl 16 oed ddwywaith mor debygol â'u cyfoedion o fod heb swydd, addysg neu hyfforddiant (15% ohonynt o'u cymharu â 7% o bobl 16 oed eraill)²

¹ DRC (2005) "Disability Briefing: June 2005")

² DfES (2004) "Youth Cohort Study: The Activities and Experiences of 16 Year Olds: England and Wales"

Bwriad y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl yw gwella'r sefyllfa a dileu'r annhegwch yma.

Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

(Disability Equality Scheme, DES)

Mae disgwyl i bob ysgol gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl (Disability Equality Scheme, DES) i gofnodi sut mae'r ysgol yn mynd ati i weithredu'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl. Bydd rhaid cofnodi camau / targedau penodol yn y Cynllun (DES), sef y gweithredoedd mae'r ysgol am eu cyflawni er mwyn gweld canlyniadau pendant ar ddiwedd cyfnod o dair blynedd. Bydd rhaid adolygu'r Cynllun hefyd bob tair blynedd.

Roedd yn rhaid i bob Awdurdod Lleol baratoi Cynllun erbyn 4 Rhagfyr 2006, ond rhaid i ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cymru gyhoeddi'r Cynllun erbyn 1 Ebrill 2007, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion erbyn 3ydd Rhagfyr 2007.

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr yw sicrhau bod y Cynllun yn barod, ond wrth baratoi'r ddogfen, mae rôl gan bawb - y Pennaeth, Uwch Dîm Rheoli, aelodau eraill o staff, disgyblion, rhieni, cynhalwyr (*carers*) ac aelodau o'r gymuned ehangach sydd yn debygol o ymweld â'r ysgol. Sicrhewch eu bod oll yn ymwybodol o'r Ddyletswydd ac o'u rôl hwy wrth baratoi'r Cynllun.

Beth fydd cynnwys eich Cynllun?

Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

1. datganiad i egluro sut mae pobl anabl – plant, pobl ifanc, oedolion wedi helpu i baratoi'r cynllun (o'r cam cyntaf i'r cam olaf o'r broses)
2. eich trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth ar effaith eich polisïau ac ymarferion ar o leiaf y canlynol:
 - a) recriwtio, datblygu a chadw staff anabl
 - b) cyfleoedd addysgiadol disgyblion anabl
 - c) cyraeddiadau disgyblion anabl

3. manylion am eich defnydd o'r wybodaeth, yn arbennig wrth adolygu effeithiolrwydd eich Cynllun Gweithredu a pharatoi eich Cynlluniau dilynol
4. eich dulliau o asesu effaith eich polisiâu ac ymarferion ar gydraddoldeb, a lle gellir gwneud gwelliannau pellach i bobl anabl
5. Cynllun Gweithredu - rhestr o bwyntiau gweithredu sydd yn manylu ar y camau i'w cymryd i wireddu gofynion y Ddyletswydd gyffredinol (DED)

Paratoi eich Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

1. Cyfraniad pobl anabl at y drafodaeth

1.1. Y Camau Cyntaf – i ddechrau ystyriwch y canlynol:

- maint yr ysgol
- y wybodaeth sydd gennych am niferoedd poblogaeth anabl yr ysgol - staff, disgyblion, rhieni, Llywodraethwyr
- y potensial i gydweithio gydag ysgolion neu golegau cyfagos
- natur eich adeiladau
- eich cyllideb
- sut mae'r Ddeddf Disgrimeiddio ar Sail Anabledd (DDA) yn rhyngweithio gyda Deddfau eraill
- cysylltiadau gyda'r Cynllun Hygyrchedd (Pa wybodaeth sydd gennych yn barod oherwydd eich gwaith paratoi ar gyfer y Cynllun Hygyrchedd? Ydych chi am gynnwys eich Cynllun Hygyrchedd a'ch Cynllun Cydraddoldeb i bobl Anabl mewn un ddogfen? Os hynny rhaid i brif elfennau'r DED a'r DES fod yn amlwg, hawdd adnabod ac mewn un man yn y ddogfen).
- Cofiwch: Nid oes disgwyl i chi gynnwys unrhyw gamau yn y Cynllun sydd yn afresymol neu'n anymarferol.

- Cofiwch fod eich AALI wedi gorfod paratoi Cynllun Cyfartaledd Anabledd yn barod (sef erbyn 4ydd Rhagfyr) a dylai'r Awdurdod hefyd fod yn gallu rhoi rhywfaint o arweiniad i chi ar y mater. Gofynnwch am weld eu Cynllun.

1.2. Dewis aelodau'r gweithgor a phwy i'w targedu ar gyfer trafodaethau

- Sefydlwch **weithgor**, sef grŵp gweithredu i drafod y cynnwys ac i baratoi eich Cynllun. Mae'r DfES yn awgrymu fod angen tua 4 aelod ar y gweithgor. Bydd angen i'r Gweithgor adrodd yn ôl i'r Llywodraethwyr.
- Sicrhewch fod gan blant ac oedolion anabl lais o'r cychwyn a **thrwy gydol y broses**. Rhaid cael cynrychiolaeth o bobl anabl ar y gweithgor a chynnwys pobl anabl yn y drafodaeth ehangach wrth gasglu gwybodaeth i baratoi'r ddogfen. Rhaid rhoi cyfle iddynt fynegi barn ar flaenoriaethu'r gweithredoedd y byddwch yn eu cymryd a'r canlyniadau rydych am eu gweld ar ddiwedd cyfnod o dair blynedd.
- Dylai fod aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ar y gweithgor. Ystyriwch y canlynol hefyd, o bosibl:
 - aelod o staff anabl
 - SENCO (sydd yn ymwybodol o lawer o ddisgyblion ag anableddau a'u problemau – ond cofiwch bydd yna blant eraill gydag anableddau sydd heb anghenion addysg arbennig),
 - rhiant anabl neu riant i blentyn anabl
 - plentyn anabl
 - Llywodraethwr anabl
 - aelodau anabl o'r gymuned sydd yn defnyddio'r safle
 - aelod o staff sydd yn debygol o ymdrin â phroblemau sydd yn codi megis bwllian ac ati e.e. tiwtor blwyddyn
 - athro mewn maes sydd yn gallu bod yn her i ddisgybl anabl e.e. Ymarfer Corff / Drama ac ati
- Ystyriwch y wybodaeth sydd gennych yn barod am bobl anabl ar y Corff Llywodraethol, staff yr ysgol, cyngor yr ysgol, y Gymdeithas Rhieni ac ati (gellir annog y rhain i fod yn rhan o'r broses). Ystyriwch hefyd eraill sydd yn debygol o fod â diddordeb yn eich dulliau gweithredu, e.e. rhai sydd yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol, cyn-ddisgyblion neu aelodau o staff, darpar ddisgyblion (uwchradd); rhieni anabl a rhieni i blant anabl, ac ati.

- Gallwch hefyd gysylltu â sefydliadau sydd yn ymwneud ag anableddau (anableddau dysgu, anableddau corfforol, anableddau meddyliol) - gweler rhestr o awgrymiadau ar ddiwedd y ddogfen hon - i ofyn am fewnbwn neu gynrychiolaeth ar y gweithgor.

1.3 Problem adnabod pobl anabl?

- Ydych chi'n gwybod beth yw'r diffiniad cyfredol o Anabledd yn ôl y Ddeddf Disgrimineiddio ar Sail Anabledd? (Gweler y Diffiniad)
- Mae'n bosibl na fydd gennych ddigon o ddata penodol na chyfundrefnau casglu gwybodaeth ddigonol i adnabod disgyblion, gweithwyr, Llywodraethwyr, rhieni a chynhalwyr anabl, ar y dechrau. Gall fod yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth ac i ddigon o gynrychiolaeth barn.
- Os felly, gallwch gynnwys y materion hyn yn eich Cynllun Gweithredu, e.e.
 - datblygu cyfundrefnau casglu gwybodaeth am niferoedd ac anghenion staff anabl
 - datblygu mwy o gysylltiad gyda grwpiau a phobl anabl yn ystod y cyfnod tair blynedd
 - annog pobl anabl i ymuno â'r Corff Llywodraethol
- Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ysgol yn cynnwys cynrychiolaeth o bobl anabl o bob un o'r grwpiau a nodwyd uchod; bydd yn anodd i ysgolion bach i gynnwys cynrychiolaeth o sawl un o'r grwpiau hyn, ond gallai ysgolion bach gydweithio mewn clystyrau fel bod modd iddynt sicrhau clywed barn trawstoriad o bobl anabl. Gall ysgolion uwchradd hefyd gydweithio gydag ysgolion eraill neu Golegau Addysg Bellach a phartneriaid eraill wrth baratoi'r Cynllun.

1.4 Pa fath o wybodaeth fydd arnoch ei angen cyn mynd ati i baratoi'r cynllun?

- Bydd angen i chi adnabod rhwystrau i ddatblygiad pobl anabl yn eich ysgol. Gall y rhwystrau fod oherwydd polisïau neu weithdrefnau yn yr ysgol neu agweddau eraill.
- Does neb yn gwybod yn well na pherson anabl pa fath o rwystrau mae'n eu hwynebu o ddydd i ddydd. Mae'n wir i ddweud hefyd bod anableddau gwahanol yn dod â rhwystrau gwahanol. Mae'n bwysig,

os yn bosib, ceisio cynnwys pobl ar y gweithgor sydd yn debygol o weld y rhwystrau yn gyffredinol.

- Bydd angen i chi edrych ar bob agwedd o waith yr ysgol o ddydd i ddydd ac ar y polisiâu, gweithdrefnau ac agweddau sydd yn effeithio disgyblion, staff ac ymwelwyr. Bydd casglu'r wybodaeth yma hefyd yn gam cyntaf i benderfynu sut i ddatrys y rhwystrau. Dyma rai syniadau am bethau i'w trafod:
 - teithiau / ymweliadau ysgol
 - trefniadau'r awr ginio
 - trefniadau ar gyfer meddyginiaethau
 - gwersi, megis Ymarfer Corff
 - gwisg ysgol
 - symud o gwmpas yr ysgol / yr adeilad
 - llefydd i gadw bagiau / llyfrau
 - bwlio oherwydd anabledd
 - safonau cyrhaeddiad plant ag anableddau
 - ymdrin â'r ddelwedd sydd gan eraill o bobl anabl
 - cyfathrebu â rhieni / nosweithiau rhieni, ac ati
 - hysbysebu swyddi newydd
 - trafod anghenion staff anabl - ydy'r ysgol yn cynnig unrhyw gymorth ymarferol i'w cefnogi?
 - ydy'r ysgol yn ei gwneud yn hawdd (ac yn gwneud amser) i bobl sydd yn datblygu anabledd i godi'r mater a thrafod anghenion?
 - cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i staff anabl
 - cyfleoedd hyfforddiant am anabledd i staff eraill
 - polisiâu sydd angen eu haddasu er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl
 - materion all effeithio rhieni anabl
 - materion all effeithio rhieni â phlant anabl

1.5 Sut allwch chi greu cyfleoedd i bobl anabl fynegi barn?

- Gellir gwneud defnydd o ddulliau amrywiol (ffurfiol ac anffurfiol) o gasglu barn pobl anabl. Mae'n debygol bydd ysgolion yn gweithredu'n wahanol iawn i'w gilydd, yn dibynnu ar faterion megis maint, lleoliad ac ati.
- Dyma rai posibiliadau:
 - cyfarfodydd staff / rhieni / disgyblion (o bosibl ar y cyd gydag ysgolion eraill)

- trefnu gweithgareddau cymdeithasol i blant anabl a / neu rieni anabl (ar y cyd gydag ysgolion eraill efallai) i wrando ar eu barn mewn sefyllfa anffurfiol
- grwpiau ffocws wedi'u targedu, e.e. ar gyfer staff / rhieni / plant ac ati
- Blychau Barn e.e. blwch postio yn y Llyfrgell / ym mhob dosbarth / yn y Ffreutur, gyda chardiau plaen i gofnodi barn
- fforymau ar-lein i ddisgyblion / staff
- gwahodd rhieni i fynegi barn ar slip ar ddiwedd llythyr safonol neu ar daflen ar ddiwedd noson rieni neu ddiwyddiad yn yr ysgol; holiaduron
- gwersi penodol yn yr ysgol yn edrych ar / trafod cydraddoldeb i bobl anabl e.e. yn ystod y cyfnodau ABCh, gwersi iaith ac ati
- digwyddiadau ar y cyd gydag undebau'r athrawon i athrawon yr ysgol
- gwahodd grwpiau sydd yn gweithio gyda phobl anabl i gyfarfod / danfon gwybodaeth ac ati

(Mae modd sicrhau bod nifer o'r gweithgareddau uchod yn rhoi cyfle i unigolyn fynegi barn yn anghysbys, os dymuna)

- Bydd aelodau'r gweithgor hefyd, wrth gwrs, yn cyfarfod yn ffurfiol i rannu syniadau, trafod gwybodaeth sydd yn dod i law o'r uchod, ac i ddrafftio'r Cynllun. Efallai y gall aelodau'r gweithgor yn eu cyfarfod cyntaf feddwl sut y gellir targedu pobl anabl yn yr ysgol a'r gymuned, ac ystyried y math o wybodaeth y byddent yn dymuno ei dderbyn
- **Cofiwch:** bydd rhaid i chi nodi yn y Cynllun sut y bu i chi gasglu gwybodaeth gan bobl anabl ym mhob un cam o'r broses o baratoi'r cynllun.

2. Trefniadau a Chyfundrefnau Casglu Gwybodaeth yn yr ysgol

2.1 Staff a disgyblion

- Bydd rhaid i ysgolion nodi yn y cynllun drefniadau casglu gwybodaeth am effaith eu polisiau ac ymarferion ar bobl anabl, e.e.
 - effaith ar recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr anabl
 - effaith ar gyfleoedd addysgiadol i ddisgyblion anabl
 - effaith ar gyrhaeddiad disgyblion anabl

- Mae'n debygol y bydd angen gwneud rhywfaint o waith yn gyntaf ar adnabod staff a disgyblion anabl. Bydd hyn yn haws, efallai, ar gyfer staff a disgyblion newydd, e.e.
 - gellir cynnwys casglu gwybodaeth am anabledd yn ystod y broses recriwtio a dewis staff
 - gellir cysylltu gyda'r AALI neu Gyrff Llywodraethol a chyd-drafod i sicrhau bod ymholiadau am fynediad a chyfathrebiadau eraill yn cynnwys gwybodaeth am anableddau disgyblion
- Dylid sicrhau bod gan y staff a'r disgyblion sydd yn yr ysgol yn barod gyfleoedd i godi materion, e.e. gyda rheolwr llinell neu diwtor personol, ar adegau yn ystod y flwyddyn. Mae'n bosibl bydd rhai yn datblygu anableddau yn ystod eu cyfnod fel disgybl neu aelod o staff yn yr ysgol, ac y bydd gan eraill broblemau hir dymor ond heb ystyried bod ganddynt hawl i gefnogaeth o dan y Ddeddf.
- Mae'n debygol bydd rhai yn ofidus am ddatgelu gwybodaeth am anabledd / salwch hir dymor. Bydd rhaid tawelu eu meddwl trwy esbonio mai pwrpas yr holi yw sicrhau tegwch iddynt a'u bod yn cael cefnogaeth. Bydd rhaid hefyd pwysleisio materion megis cyfrinachedd.

2.2 Rhieni ac aelodau o'r gymuned

- Nid oes rheidrwydd ar ysgolion i ddarganfod gwybodaeth am bobl anabl eraill sydd yn defnyddio'r ysgol. Fodd bynnag, mae'n debyg o fod yn anodd sicrhau cyfleoedd cyfartal i rieni a chynhalwyr a phobl eraill anabl sydd yn defnyddio'r ysgol, os nad oes dull o dderbyn gwybodaeth am eu profiadau. Oherwydd hyn - ac yn dibynnu ar adnoddau'r ysgol - dylid ceisio gasglu'r wybodaeth yma e.e. wrth ymweld â'r ysgol ar gyfer Noson Rieni / Ffair Haf / Noson Agored / Cyngerdd ac ati.
- Dylai'r ysgol, lle mae'n bosibl, ofyn i rieni / cynhalwyr am unrhyw broblem anabledd / ieched yn ystod y cyswllt cyntaf gyda hwy, e.e. pan fydd y plentyn yn cychwyn yn yr ysgol; ar gyfer disgyblion sydd yno'n barod, gellir cynnwys holiadur byr mewn unrhyw ohebiaeth, a gofyn a oes anghenion arbennig oherwydd problem ieched / anabledd neu holi pa mor hapus oedd y rhieni gyda darpariaeth yr ysgol ar gyfer, e.e. y noson rhieni.

- Mae pobl yn aml yn anfonlon ac anhapus i ddatgelu manylion personol am anabledd / salwch os nad ydynt yn ymwybodol pam y gofynnir am y wybodaeth, a sut mae rhoi'r wybodaeth yn mynd i effeithio arnynt hwy'n bersonol. Mae yna ofidiau hefyd am faterion megis cyfrinachedd. Wrth gwrs, mae hefyd grwpiau o bobl nad ydynt yn ystyried bod eu problemau iechyd yn cwrdd â'r diffiniad o anabledd.
- Gall fod yn fater sensitif iawn ac yn fater o bryder yn arbennig i aelod anabl o staff. Dylai ysgolion felly:
 - esbonio'r rheswm am y cwestiynau
 - esbonio'r defnydd a wneir o'r wybodaeth
 - pwysleisio cyfrinachedd
 - cyflwyno diffiniad o anabledd

2.3 Recriwtio, datblygu a chadw staff

- Mae ysgolion sydd â delwedd ffafriol fel cyflogwr i'r anabl yn:
 - adlewyrchu'r gymdeithas ehangach yn decach
 - cael mwy o ddewis recriwtio
 - cadw pobl gyda sgiliau gwerthfawr sydd yn dod yn anabl yn ystod y cyfnod yn y swydd
 - datblygu arbenigedd am anghenion staff a disgyblion anabl
 - darparu patrymau ymddwyn (*role models*) i blant a phobl ifanc
 - dod â phrofiadau bywyd gwahanol a sgiliau newydd i'r ysgol
 - meithrin perthynas dda gyda'r holl weithwyr, trwy ddangos bod yr ysgol yn gwerthfawrogi pob gweithiwr ac yn eu trin i gyd yn deg
- Er mwyn asesu os ydy polisïau'r ysgol ac ymarferion presennol yn cael effaith ar recriwtio a chadw staff anabl mae angen casglu gwybodaeth am niferoedd staff anabl a'u rôl. Mae angen cadw gwybodaeth hefyd am y cyrsiau a fynychir, y cyfleodd am ddyrchafiad a phatrymau gadael swyddi. Mae modd defnyddio'r data i gynllunio lle mae angen gwelliant a sut mae modd cynnig cymorth yn natblygiad eu gyrfa i gefnogi staff anabl, e.e. a oes angen defnyddio'r Cynllun Mynediad i Waith (*Access to Work Scheme*) i helpu costau'r cyflogwr i wneud addasiadau rhesymol?
- Mae angen dulliau casglu gwybodaeth effeithiol a defnydd da o ddata.

2.4 Cyfleodd addysgiadol a chyrraaddiad disgyblion anabl

- Hyd hyn nid oes rheidrwydd wedi bod ar ysgolion i gasglu data am ddisgyblion anabl. Er bod ysgolion yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig ni fydd y data yma yn cynnwys pob disgybl anabl.
- Bydd disgyblion gyda chyflyrau meddygol, lle nad yw'r rhain yn achosi problemau dysgu, wedi'u heithrio o'r data, e.e. disgyblion sydd â diabetes, epilepsi, cancr neu broblemau iechyd meddwl pan nad oes ganddynt anableddau dysgu hefyd.
- Mae gan rhai disgyblion AAA problemau iechyd ac anabledd ond mae eraill sydd â'r naill neu'r llall yn unig. Edrychwch ar ddiffiniad y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) os oes angen i chi benderfynu pa gategori mae plentyn yn perthyn iddo: y naill, y llall neu'r ddau.
- Mae gan ysgolion ddata yn barod am gyraeddiadau addysgiadol eu disgyblion, yn bennaf trwy asesiadau a chanlyniadau arholiadau. Bydd rhaid nawr defnyddio'r data fel man cychwyn a'i ddadelfennu / ei ddadagregu (*disaggregate*) er mwyn cael data penodol am gyfleoedd a chyraeddiadau disgyblion anabl.
- Gellir hefyd wneud defnydd o wybodaeth megis:
 - sawl plentyn anabl sydd mewn sefyllfa o gyfrifoldeb yn yr ysgol, e.e. aelod o gyngor yr ysgol; capten dosbarth, llys neu dîm; swyddog, prif swyddog; ac ati
 - uchelgeisiau plant anabl
 - pontio llwyddiannus cynradd / uwchradd / addysg bellach / addysg uwch / hyfforddiant / cyflogaeth
 - mynediad i deithiau ac ymweliadau
 - defnydd o glybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol
 - mynediad i brofiad gwaith / lleoliadau profiad gwaith
 - defnydd o'r gwasanaeth gyrfâu
 - boddhad cyffredinol ar draws gweithgareddau'r ysgol
- Bydd angen edrych ar y ffordd gorau o gasglu'r wybodaeth yma o fewn yr ysgol, e.e. gwersi ABCh, holiaduron, proffiliau disgyblion, cyngor ysgol ac ati.
- Gyda chywiliad o ystadegau a gwybodaeth am eu profiadau, bydd yn haws i ysgolion asesu sut mae eu polisïau ac ymarferion yn effeithio agwedd disgyblion anabl, y cyfleoedd sydd ar gael iddynt a'u cyraeddiadau.

- Os oes awgrym bod patrymau negyddol i'w gweld, bydd angen Asesiad Effaith (*Impact Assessment*) llawn ar y polisi(au) hynny i benderfynu sut i wella'r sefyllfa.
- Mae'n debygol bydd adnabod holl ddisgyblion anabl yr ysgol a chasglu gwybodaeth amdanynt yn golygu newid mawr i ysgolion. Bydd y broses o gasglu gwybodaeth yn un parhaol, ond mae'n debygol o ddod yn haws. Bydd y system DEWI (*Data Exchange Wales Initiative*) yn gwneud casglu data yn haws yn y dyfodol, ond am y tro, bydd angen i ysgolion sefydlu systemau effeithiol o gasglu data os nad oes rhai'n bodoli ganddynt yn barod. Mae'n annhebygol bydd gennych systemau da i gasglu'r wybodaeth briodol yn barod, felly dylid cynnwys manylion am sut y bwriedir gwella hyn yn y Cynllun Gweithredu.
- Pwysig: mae disgwyl i chi weithredu a hyrwyddo cyfleodd cyfartal – nid yw diffyg gwybodaeth yn esgus am ddiffyg gweithredu.

3. Defnyddio'r wybodaeth

- Rheol Aur: os nad ydych yn golygu gwneud defnydd o wybodaeth, nid oes pwrpas ei gasglu. Ystyriwch hyn wrth sefydlu cyfundrefnau casglu gwybodaeth.
- Bydd angen dadansoddi'r wybodaeth a'i defnyddio fel sail i baratoi Cynllun Gweithredu i Bobl Anabl ac adolygu effeithiolrwydd eich gweithredoedd.
- Bydd y wybodaeth yn dangos y cynnydd mewn perthynas â chydaddoldeb i bobl anabl.
- Bydd yn fwy gwerthfawr i ysgolion â niferoedd bach o ddisgyblion i adolygu tueddiadau dros gyfnod hirach o amser.

4. Asesiadau Effaith (*Impact Assessments*)

- Rhaid cynnwys manylion **sut** byddwch yn asesu effaith (neu effaith tebygol) eich polisiâu ac ymarferion ar ddisgyblion ac oedolion anabl, yn eich cynllun. Dyma sut i sicrhau nad yw digwyddiadau yn yr ysgol yn tanseilio datblygiad disgyblion nac yn anfanteisio disgyblion, gweithwyr, rhieni, cynhalwyr a phobl anabl sydd yn defnyddio'r safle.

- Rhaid i chi fod yn drylwyr ac yn effeithiol, a lle'n bosibl defnyddio dulliau sydd yn weithredol yn yr ysgol, yn barod, ac sydd yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau'r ysgol.
- Bydd yr asesiadau hefyd yn sicrhau modd i adnabod cyfleodd eraill o hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl.
- Nid oes un dull arbennig o gyflawni Asesiadau Effaith yn cael ei awgrymu - yn hytrach, pwysleisir y pwysigrwydd o ddewis dull sydd yn addas ar gyfer eich ysgol chi gan ystyried natur, maint ac adnoddau'r ysgol, ac ati.
- Bydd rhaid i chi ystyried yr holl bolisïau ac ymarferion sydd yn bodoli'n barod yn ogystal â pholisïau ac ymarferion newydd yng ngoleuni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl (DED). Efallai eich bod wedi cychwyn ar hyn yn barod wrth ymateb i ofynion "addasiadau rhesymol" y Ddeddf Disgrimineiddio ar Sail Anabledd.
- Mae'n debygol na fydd y mwyafrif o ysgolion wedi dechrau asesu effaith eu polisïau ar bobl anabl.
- Cyngor y **Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC)** yw gwneud map o bolisïau ac ymarferion yr ysgol i ganfod beth sydd angen ei wneud ac i sicrhau bod y polisïau ac ymarferion yn cydweithio i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl. Dylid defnyddio'r wybodaeth i flaenoriaethu ac i osod amserlen am newid.
- **Cofiwch:** ni fydd modd gwneud popeth ar unwaith ac nid oes disgwyl i chi newid popeth ar unwaith.

Gweler Gwybodaeth y CHA / DRC ar Asesiadau Effaith:
www.drc.org.uk/employers_and_service_provider/disability_equality_duty/getting_started/impact_assessments.aspx

5. Cynllun Gweithredu

- Bydd eich Cynllun Gweithredu yn nodi'r camau rydych yn bwriadu cymryd yn ystod y tair blynedd ddilynol i sicrhau eich bod yn cwrdd â gofynion y Dyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl (DED).

- Yn y Cynllun Gweithredu dylid nodi pwyntiau gweithredu / targedau pendant am:
 - sut i wella cyfleoedd addysgiadol a chyrhaeddiad disgyblion anabl
 - sut i wella cyflogaeth pobl anabl (e.e. lle mae'n bosibl anelu at gyflogi mwy o staff anabl)
- Mae'n debygol bydd eich Cynllun Gweithredu cyntaf yn nodi camau i'w cymryd i wella systemau casglu gwybodaeth am bobl anabl, hwyluso'r trefniadau i gynnwys pobl anabl a mapio polisïau. Mae'n debygol bydd Cynlluniau yn y dyfodol yn gorfod nodi llai a llai o hyn wrth i'r sefyllfa ddatblygu.
- Cofiwch fod elfen o gyfatebolrwydd (*proportionality*) yn bwysig yma. Un elfen o gyfatebolrwydd yw bod mwy o ddisgwyl i'r ysgolion mwyaf, gyda'r mwyaf o adnoddau, gyflawni mwy. Rhaid ystyried maint yr ysgol, e.e. mae'n anodd i ysgol fach sydd yn cyflogi 3 athro, sicrhau cyrraedd targed i ychwanegu at niferoedd o staff anabl, mewn byr amser. Elfennau arall o gyfatebolrwydd yw dylid blaenoriaethu'r meysydd hynny sydd fwyaf tebygol o gael yr effaith fwyaf neu'r canlyniadau gorau.
- Os dymunwch, gallwch nodi mewn rhyddiaith, yn fras, eich priif gynlluniau gweithredu ac yna nodi yn fanylach ar ffurf grid.
- Am bob gweithred yn y cynllun dylid nodi:
 - **Amser** – erbyn pryd i'w gyflawni
 - **Cyfrifoldeb pwy**
 - **Canlyniad(au)**
 - **Sut i werthuso'r llwyddiant**

Gallwch hefyd nodi materion megis adnoddau sydd eu hangen neu gost ac ati os bydd hyn yn ddefnyddiol i chi.

- Mae'r gweithredoedd / targedau yn fwy tebygol o lwyddo os ydych yn croesgyfeirio gyda chyfundrefnau eraill yn yr ysgol.
- Bydd rhaid i chi gwblhau'r holl gamau gweithredu a nodir yn eich Cynllun cyn diwedd y cyfnod o dair blynedd. Os na fyddwch yn cwblhau un o'ch cynlluniau bydd rhaid i chi allu cyfiawnhau hyn trwy roi rhesymau pendant a dangos ei fod wedi bod yn afresymol neu'n anymarferol i chi wneud hyn.

Adroddiad Blynyddol

Bydd rhaid paratoi adroddiad blynyddol i nodi cynnydd mewn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bobl anabl. Bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion am:

- wybodaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn a sut y'i defnyddiwyd
- pwyntiau gweithredu a gwblhawyd a rhai sydd angen eu cwblhau

Rhaid cynnwys pobl anabl wrth baratoi'r adroddiad blynyddol hefyd. Gellir cynnwys yr adroddiad blynyddol mewn dogfennau eraill, megis prospectws yr ysgol.

Adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl

- Bydd angen llunio Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl newydd bob tair blynedd.
- Rhaid cynnwys pobl anabl yn y broses o adolygu'r cynllun, yn yr un modd ag y cawsant eu cynnwys wrth ffurfio'r cynllun gwreiddiol.
- Bydd y broses o adolygu'r cynllun yn cynnwys:
 - dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod cyfnod y cynllun gwreiddiol
 - gwirio bod yr holl bwyntiau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu wedi'u cwblhau
 - gwerthusiad o effaith y gweithredu
- Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion flaenoriaethu ar gyfer paratoi'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl nesaf ac adeiladu ar eu profiadau o weithredu'r Cynllun cyntaf.
- Rhaid i ysgolion sydd yn cynhyrchu un ddogfen ar y cyd gyda'r Cynllun Hygyrchedd, drefnu bod yr adolygiad yn digwydd mewn cylchdro trefnu ar y cyd ac yn cyd-fynd â'r gofynion statudol am y Cynllun Hygyrchedd. Dylai unrhyw adolygiad gynnwys anghenion statudol y ddwy ddogfen. Rhaid i brif elfennau'r Ddyletswydd (DED) a'r Cynllun (DES) fod yn amlwg, hawdd eu hadnabod ac mewn un man yn y ddogfen.

Atebolrwydd

- Gall Llywodraeth y Cynulliad ac Estyn gofyn am gopi o'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd i sicrhau eu bod hwy yn cyrraedd eu gofynion statudol.
- Ers Rhagfyr 2008 rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa - sef datblygiadau gan ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill. Mae Llywodraeth y Cynulliad felly'n debygol o ofyn am dystiolaeth er mwyn gallu paratoi'r adroddiad.
- Gall Estyn ofyn am weld eich Cynllun a bydd gwerthuso'r Cynllun yn rhan o hunanwerthusiad yr ysgol ar gyfer arolwg.
- Gellir cymryd camau cyfreithiol yn erbyn ysgolion sydd yn methu cydymffurfio gyda'r Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd. Gall y Comisiwn Hawliau Anabledd (CHA / DRC) neu ei olynwyr, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR) ofyn am adolygiad barnwrol o weithredoedd (neu ddiffyg gweithredu) awdurdod.
- Mae'r CHA (DRC) neu'r CCHD (CEHR) yn gallu gweithredu yn erbyn ysgolion sydd heb gyflawni eu dyletswyddau penodol (*specific duties*) trwy roi rhybudd cydymffurfiad (*compliance notice*) a gall y Llys eu gorfodi i weithredu.

Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae UCAC yn cydnabod yn ddiolchgar caniatâd y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) i ddefnyddio cynnwys dogfen o'u heiddo sef: *Schools and the Disability Equality Duty in England and Wales: Guidance for Governors, Headteachers, teaching and support staff working in schools in England and Wales.*

I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Dilwyn Roberts-Young, Swyddog Maes y Gogledd, dilwyn@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes Cynorthwyol, ywain@ucac.cymru

Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:

- Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol, elaine@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

Addaswyd Gorffennaf 2012

Nodiadau



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

 facebook.com/AthrawonCymru  twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru